**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

# CYFARFOD O'R PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 22 TACHWEDD 2017 YN NHŶ HASTINGS (10:30 – 11:45)

**Aelodau CFfDLC yn Bresennol:** Ceri Stradling (Cadeirydd), David Powell (Aelod), Julie James (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru yn Bresennol:** Mark Jones

**Cynrychiolydd Deloitte yn Bresennol:** Lauren Parsons

**Swyddogion CFfDLC yn Bresennol:** Steve Halsall (Prif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid)

Croesawodd y Cadeirydd Lauren Parsons o Deloitte a oedd yn mynychu'r Pwyllgor am y tro cyntaf.

## 1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Theo Joloza (Aelod), Ian Howse (Deloitte), Lisa James (Llywodraeth Cymru) a Matthew Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr).

1.2 Adroddodd Mark Jones fod Derwyn Owen wedi cymryd lle Anthony Barrett fel yr Arweinydd Archwilio ar gyfer CFfDLC. Roedd Mr Owen wedi bwriadu mynychu'r cyfarfod ond ni fu modd iddo wneud hynny'n anffodus, ac anfonodd ei ymddiheuriadau.

## 2. Datganiadau o Fuddiant

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o Fuddiant.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2017.

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2017.

## 4. Materion yn Codi o'r Cyfarfod Blaenorol.

4.1 Nododd y Pwyllgor fod y mwyafrif o'r eitemau a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau erbyn hyn.

4.2 Roedd eitem yn parhau heb ei thrafod mewn perthynas â chadarnhad o'r trefniadau ar gyfer yr adolygiad allanol cyfnodol o'r archwilwyr mewnol a ddisgwyliwyd gan Deloitte. Dywedodd Lauren Parsons y byddai'n cael diweddariad ar y sefyllfa gan Ian Howse.
**Gweithredu**: Deloitte **Erbyn**: 21 Chwefror 2018

4.3 Adroddwyd nad oedd y Prif Weithredwr na'r Dirprwy Brif Weithredwr wedi gallu mynychu seminar Cyfnewid Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru, 'Cynnwys y Dinesydd' / 'Involving the Citizen' oherwydd nad oedd unrhyw leoedd i gynrychiolwyr ar gael ar ôl. Nodwyd hefyd fod y Rheolwr Cyllid wedi cael anawsterau technegol yn cael mynediad i weminarau byw Cyfnewid Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru ar YouTube, a chyfranogi ynddynt. **Cytunwyd** y byddai manylion y broblem yn cael eu hanfon ymlaen at Mark Jones er mwyn iddo allu gwneud ymholiadau ynglŷn â datrys y broblem.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Tachwedd 2017

4.4 Roedd adroddiadau archwilio TG Llywodraeth Cymru wedi'u derbyn erbyn hyn ac roedd y Pwyllgor o'r farn fod y rhain yn darparu sicrwydd blynyddol digonol i CFfDLC, tra hefyd yn parhau'n rhan o system TGCh Llywodraeth Cymru. **Cytunwyd** y dylid gofyn am y sicrwyddau yn flynyddol hyd nes bod CFfDLC yn gadael system TGCh Llywodraeth Cymru.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Gorffennaf 2018

## 5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

5.1 Nododd a **chytunodd** y Pwyllgor y Cynllun Gwaith.

## 6. Archwilio Mewnol: Adroddiad Archwilio Canol Blwyddyn 2017-18

6.1 Adroddodd Lauren Parsons fod y gwaith archwilio a wnaed yn Awst 2017 wedi cwmpasu meysydd Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg ac Adnoddau Dynol. Nodwyd manylion canfyddiadau'r gwaith archwilio yn yr adroddiad a roddodd raddfeydd sicrwydd Sylweddol i bob un o'r tri maes yr ymdriniwyd â nhw gan yr archwiliad. Cododd yr adroddiad dri argymhelliad â blaenoriaeth isel, sef:

- bod pob polisi yn nodi'r dyddiad y mae'n ofynnol cynnal yr adolygiad nesaf, a bod adolygiadau'n cael eu cwblhau yn unol â'r dyddiadau hyn;
- bod y Comisiwn yn ystyried cynnwys datganiad cenhadaeth yn y Cynllun Corfforaethol; a
- bod y camau gweithredu lliniaru yn y Gofrestr Risg Weithredol yn cael eu diweddaru, a bod y Gofrestr Risg Weithredol yn gwahaniaethu'n glir rhwng rheolaethau sydd eisoes ar waith a chamau gweithredu lliniaru y mae angen eu cymryd.

6.2 Roedd pob un o'r tri argymhelliad wedi'u derbyn, a dyrannwyd dyddiadau terfyn amser gweithredu iddynt.

6.3 Nododd y Pwyllgor fod swydd y Rheolwr Cymorth Busnes yn wag ar hyn o bryd a bod hynny wedi achosi oedi o ran adolygu rhai polisïau, ond bod disgwyl y byddai'r swydd yn cael ei llenwi ym mis Ionawr 2018, ac y byddai'r polisïau hyn yn cael eu hadolygu maes o law.
**Gweithredu**: Rheolwr Cymorth Busnes **Erbyn**: 31 Mawrth 2018

6.4 O ran y Cynllun Archwilio, nododd Mark Jones mai dim ond 2 ddiwrnod archwilio oedd wedi'u dyrannu i'r archwiliad o Reolaethau Cyffredinol TG a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 2018-19, a holodd a fyddai hyn yn ddigonol o ystyried y newid a oedd yn yr arfaeth i drefniadau TG CFfDLC. **Cytunwyd** y byddai angen adolygu'r

sefyllfa hon yn nes at amser yr archwiliad a oedd wedi'i drefnu pan fyddai darlun cliriach o effaith y newidiadau TG.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Gorffennaf 2018

## 7. Adolygiad o'r Ymarferiad Gwirio Asedau Sefydlog

7.1 Nododd y Pwyllgor ganlyniad ymarferiad gwirio asedau sefydlog blynyddol CFfDLC. Cyfrifwyd am yr holl asedau ac roedd yr unig faterion a oedd yn codi yn ymwneud â mân achosion label ased ar goll a oedd bellach wedi'u hunioni, a chael cadarnhad gan Aelodau o asedau TG a oedd yn cael eu cadw oddi ar y safle.

## 8. Adolygiad o Holiadur Hunansicrhau y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

8.1 Adroddwyd y byddai'r holiadur ar gyfer 2017-18 yn cael ei gylchreded i aelodau ei lenwi. Byddai canlyniad ymarferiad 2017-18 ac unrhyw faterion a nodwyd yn cael eu hystyried yng nghyfarfod mis Chwefror 2018.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 21 Chwefror 2018

## 9. Argymhellion Archwilio – Adroddiad Cynnydd.

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd ar argymhellion yr archwilwyr mewnol a oedd heb eu cyflawni eto. Nodwyd bod yr argymhellion a oedd heb eu cyflawni ar gyfer 2012-13 a 2014-15 yn ymwneud ag arolygon y Comisiwn, ac felly nid oedd modd cyflwyno tystiolaeth ohonynt fel argymhellion wedi'u gweithredu hyd nes bod cryn waith wedi'i wneud mewn perthynas ag arolygon. Fodd bynnag, yng ngolau dechrau arolygon etholiadol yn 2017, rhagwelwyd y byddai'r argymhellion hyn yn cael eu cadarnhau fel argymhellion wedi'u gweithredu maes o law.

9.2 O ran yr argymhelliad yn 2014-15 a oedd heb ei gyflawni ynglŷn â'r ymarferiad i wirio data pensiwn aelodau staff, adroddwyd bod CFfDLC yn disgwyl ymateb gan MyCSP yn awr fod y newidiadau gofynnol wedi'u gweithredu. O ystyried hyn, cynigiwyd bod terfyn amser gweithredu diwygiedig, sef 31 Rhagfyr 2017, yn cael ei fabwysiadu.

9.3 O ran yr argymhelliad yn 2016-17 a oedd heb ei gyflawni yn cyfyngu ar fynediad i ffeiliau personél ac adnoddau dynol ar y system TG, cynigiwyd bod terfyn amser diwygiedig, sef 31 Ionawr 2019, yn cael ei fabwysiadu er mwyn caniatáu amser i roi'r trefniadau TG newydd ar waith. **Cytunodd** y Pwyllgor i ddyddiad y terfyn amser diwygiedig.

9.4 O'r tri o argymhellion yr archwilwyr allanol yn 2017-18, roedd un wedi'i weithredu'n llawn erbyn hyn, tra bod dyddiadau gweithredu gan y ddau arall, sef 28 Chwefror 2018 a 31 Ionawr 2019.

9.5 Roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol pe bai copi o'r manylebau TG newydd yn cael eu hanfon ymlaen i'r archwilwyr mewnol fel eu bod yn gallu ei adolygu o ran unrhyw faterion yn ymwneud â diogelwch **Cytunwyd** y byddai hyn yn cael ei wneud cyn gynted â'i fod ar gael.
**Gweithredu**: Dirprwy Brif Weithredwr **Erbyn**: 30 Medi 2018

## 10. Adroddiad Rheoli Risg

10.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r cofrestri a pholisi risg cyfredol. Adroddwyd am y newidiadau a wnaed i'r cofrestri risg Corfforaethol a Gweithredol ers y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor.

10.2 Adroddodd Steve Halsall fod yr arolwg o'r Ffiniau tua'r Môr wedi'i gwblhau erbyn hyn. Nododd y Bwyllgor fod CFfDLC wedi cytuno i ddileu Risg Gorfforaethol CR6 yn eu cyfarfod diweddar ym mis Tachwedd.

10.3 Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed ar liniaru risg CR7 drwy ffurflenni i'r cytundeb i drosglwyddo'r brydles yn fuan i'w llofnodi gan CFfDLC a Llywodraeth Cymru. Byddai'r risg hon yn cael ei diweddaru yng nghyfarfod nesaf CFfDLC ym mis Rhagfyr.

10.4 **Cytunodd** y Pwyllgor y dylai'r holl gamau lliniaru ar y Gofrestr Risg Weithredol gael eu hadolygu a'u diweddaru, gyda'r dyddiadau gweithredu i'w newid i ddynodi p'un a oedd y camau gweithredu wedi'u cwblhau fel y bo'n gymwys.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 28 Chwefror 2018

10.5 **Cytunodd** y Pwyllgor i gynnig i CFfDLC y dylai'r Polisi Rheoli Risg gael ei ddiweddaru i gynnwys y gwahaniaeth rhwng risgiau generig a risgiau sy'n dod i'r amlwg.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 28 Chwefror 2018

10.6 Nododd y Pwyllgor, ar ôl ymadawiad y Rheolwr Cymorth Busnes, mai dim ond un aelod o staff sy'n siarad Cymraeg sydd gan CFfDLC.

## 11. Adroddiad Monitro'r Gyllideb.

11.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 24 Hydref 2017. Nodwyd bod CFfDLC wedi trafod y tanwariant amcangyfrifedig yng ngolau trefniadau staffio, y costau cynyddol mewn perthynas â phrydles yr adeilad newydd a'r gofyniad i ailaddurno'r adeilad ar ddiwedd y brydles bresennol.

11.2 Nododd Mark Jones yr adroddwyd am sefyllfa'r gyllideb ar sail arian parod yn hytrach na sail adnoddau. Atebodd y Rheolwr Cyllid mai'r rheswm am hyn oedd bod dadansoddiad y gyllideb yn cymharu proffil y gyllideb yn erbyn gwariant gwirioneddol gan fod hyn yn rhoi darlun cliriach o swm y Cymorth Grant sy'n weddill. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n fuddiol cael rhyw syniad o sefyllfa'r gyllideb bresennol ar sail adnoddau. **Cytunwyd** y byddai adran yn rhoi sefyllfa'r gwariant presennol ar sail adnoddau yn cael ei chynnwys yn adroddiadau'r dyfodol.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Mawrth 2018

## 12. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau

12.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw ddatganiadau o roddion neu letygarwch ar gyfer 2017-18 hyd yma.

## 13. Cwynion

13.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gŵynion wedi’u derbyn ers yr adroddiad diwethaf.

13.2 Nodwyd bod adolygiad i’w gynnal o’r Polisi Cwynion. Ystyriwyd y dylai’r polisi gyfeirio at bolisi cwynion Safonau’r Gymraeg erbyn hyn. Dywedodd Mark Jones y gallai’r polisi cwynion gynnwys manylion am sut i gysylltu a chodi pryderon â Swyddfa Archwilio Cymru hefyd. **Cytunwyd** y byddai Mark Jones yn anfon y ddolen at y ddogfen ar sut i godi materion gyda Swyddfa Archwilio Cymru at y Prif Weithredwr a’r Rheolwr Cyllid.
**Gweithredu**: Mark Jones **Erbyn**: 30 Tachwedd 2017

13.3 **Cytunwyd** y byddai’r Polisi Cwynion yn cael ei ddiweddaru i gynnwys cyfeiriad at bolisi cwynion Safonau’r Gymraeg a sut i godi pryderon gyda Swyddfa Archwilio Cymru, a byddai’n cael ei adolygu gan aelodau CFfDLC cyn gynted ag y bo modd.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Mawrth 2018

## 14. Adroddiad Chwythu’r Chwiban a Thwyll

14.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu’r chwiban na thwyll ers yr adroddiad diwethaf.

14.2 Nodwyd ei bod yn hen bryd cynnal adolygiad o’r polisïau Twyll a Chwythu’r Chwiban. **Cytunwyd** y byddai’r polisïau hyn yn cael eu hadolygu a’u cymeradwyo gan Aelodau CFfDLC cyn gynted ag y bo modd.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Mawrth 2018

## 15. Adroddiad Diogelwch Data TG

15.1 Adroddwyd na fu unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf.

## 16. Unrhyw Fusnes Arall

16.1 Nid oedd unrhyw fusnes arall.